**COFNOD O BENDERFYNIAD PWYLLGOR Y CABINET AR GYDRADDOLDEBAU 2020**

**YN BRESENNOL**

**Cynghorwyr** – D Patel (Cadeirydd), S Baldwin, HJ David, S Dendy, J Gebbie, DG Howells, J Radcliffe, E Venables, PJ White, HM Williams a RE Young.

**Swyddogion** – M Shephard, N Bunston a MA Galvin.

**Ymddiheuriadau am Absenoldeb** – Y Cynghorwyr CE Smith a JE Lewis.

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | **Diweddariad ar waith Cydraddoldebau mewn Ysgolion** |
| Y Penderfyniad a Wnaed | Bod y Pwyllgor wedi derbyn ac wedi ystyried yr adroddiad. |
| Teitl yr Adroddiad | **Y defnydd o'r enw Picton mewn Enwau Strydoedd ac Adeiladau ledled Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr** |
| Y Penderfyniad a Wnaed | (1) Bod yr Aelodau wedi nodi'r adroddiad.<br>(2) Bod gwaith pellach yn cael ei wneud gan hanesydd lleol i astudio ffynhonnell yr enw 'Picton' o ran enwau strydoedd ac adeiladau yn y Fwrdeistref Sirol, a bod canfyddiadau'r ymchwil honno yn cael eu hystyried ochr yn ochr â'r archwiliad sy'n cael ei gynnal gan Lywodraeth Cymru ar enwau cofebion hanesyddol a chofgolofnau ac enwau strydoedd ac adeiladau cyhoeddus.<br>(3) Disgwyl am adroddiadau cynnydd pan fo'n briodol. |
| Teitl yr Adroddiad | **Adroddiad Blynyddol Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2018-19** |
| Y Penderfyniad a Wnaed | Bod y Pwyllgor yn nodi'r cynnydd sy'n cael ei wneud ac yn cymeradwyo Adroddiad Blynyddol Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2018-19. |
| Teitl yr Adroddiad | **Adroddiad Diweddaru ar Weithredu Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau'r Gymraeg** |
| Y Penderfyniad a Wnaed | (1) Bod y Pwyllgor wedi derbyn ac wedi ystyried yr adroddiad.<br>(2) Bod gwybodaeth bellach yn cael ei rhannu gydag Aelodau ynghylch lefelau'r gwariant ar gyfer y Gymraeg fesul Cyfarwyddiaeth o gymharu â'r hyn sy'n cael ei wario o ddyraniad cyllideb Gorfforaethol ehangach y Cyngor. |
| Teitl yr Adroddiad | **Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2019-2020** |
| Y Penderfyniad a Wnaed | (1) Bod y Pwyllgor wedi derbyn ac wedi nodi cynnwys yr adroddiad ac Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2019-2020.<br>(2) Bod gwybodaeth i gael ei rhannu gyda'r Aelodau, ynghyd ag Adroddiad y Gweithlu 2019/20 sydd i gael ei hystyried yng nghyfarfod Pwyllgor Cydraddoldebau'r Cabinet ym mis Hydref, am y meini prawf a ddefnyddir wrth asesu sgiliau Cymraeg ar gyfer swyddi gwag fel rhan o broses recriwtio'r Cyngor. |
| Teitl yr Adroddiad | **Rhaglen Waith i'r Dyfodol 2020-2021** |
| Y Penderfyniad a Wnaed | (1) Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r Rhaglen Waith arfaethedig i'r Dyfodol 2020-2021 sydd ynghlwm wrth yr adroddiad, yn amodol ar y canlynol:-<br><br>• Bod cynllun gweithredu drafft Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 yn cael ei rannu gyda'r Pwyllgor, cyn |

| | |
|---|---|
| | iddo gael ei gyflwyno i'r Cabinet yn ei gyfarfod ym mis Medi 2020.<br>• Derbyn adroddiadau pellach ar eitem 2 ar Agenda cyfarfod heddiw, yn dwyn y teitl 'Y defnydd o'r enw Picton mewn Enwau Strydoedd ac Adeiladau ledled Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr', fel bo'n briodol.<br>• Ychwanegu eitem bellach at y Rhaglen Waith i'r Dyfodol ar gyfer cyfarfod mis Tachwedd 2020, yn dwyn y teitl "Effaith Covid19 a'r cyfnod clo ar bobl â chyfrifoldebau gofalu".<br>• Ychwanegu eitem bellach at y Rhaglen Waith i'r Dyfodol ar gyfer cyfarfod mis Mawrth 2021, yn dwyn y teitl "Diweddariad ar waith Cydraddoldebau mewn Ysgolion". |